

Cofion

Estynnwn ein cofion heddiw at y cleifion – Gwenfyl Lloyd (Peniel) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau yn yr Inffirmari, a hefyd Cwil Roberts (Hiraethog) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau ond sydd bellach wedi cael dychwelyd adref. Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau.

Operation Christmas Child

Er nad ydym fel eglwysi wedi trefnu ymgyrch arbennig eleni, rwy'n deall fod rhai ohonoch wedi bod yn gweu ac eraill wedi bod yn paratoi bocsys ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child*. Os hoffech i mi eu hanfon ymlaen i gael eu dosbarthu ar eich rhan, fe wnaaf hynny â chroeso, ond bydd rhaid i mi eu derbyn gennych erbyn **dydd Llun, Tachwedd 17eg**. Plis cysylltwch cyn hynny os ydych am i mi alw amdany'n nhw. Diolch yn fawr, Mair (870632).

I ddod

- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca – Tachwedd 14eg-16eg. Bydd rhaglen amrywiol yn cynnwys cyfle i gyfarfod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch. Neil Kirkham; cyflwyniad i'r rhaglen CAMU gan Meleri Cray; cyfle i weld yr arddangosfa newydd o greiriau'r Cyfundeb yng nghwmni Rhidian Griffiths, a bydd Jenny Garrard yn trafod sut y gall eglwysi a gofalaethau ddechrau darparu gweinidogaeth o'u plith eu hunain. Rhoddir sylw hefyd i'r Llawlyfr Blaenoriaid diwygiedig a chynhelir astudiaeth Feiblaidd ac oedfa ar y bore Sul. Mae croeso i flaenoriaid hen a newydd i ddod i drafod, cymdeithasu, addoli a dysgu. Cost y penwythnos fydd £85. Am ragor o fanylion a rhaglen lawn cysylltwch â'r Rheolydd, Coleg Trefeca, Talgarth, Aberhonddu LD3 oPP 01874 711423 / colegtrefeca@ebpcw.org.uk.
- **BYW A DWEUD – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Graham Daniels, Cyfarwyddwr *Christians in Sport* yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Tachwedd 29ain. £19 fydd cost y diwrnod gan gynnwys cinio yng Ngholeg y Bala, neu £13 os byddai'n well gennych ddod â'ch pecyn bwyd eich hun. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan www.souledoutcymru.net neu cysylltwch â Mair.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 14eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddatlu genedigaeth Crist!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Tachwedd 2014

Darlleniad y Dydd

Amos 5:1-9

(BCND tud.834 / BCN: tud.759)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes iawn i bob un ohonoch i'r oedfaon heddiw. A hithau'n Sul y Cofio, gweddiwn dros yr holl deuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan erchylltra rhyfel ar draws ein byd, gan ddiolch i'r Arglwydd am obaith o heddwoch tragwyddol trwy'n Harglwydd Iesu Grist. Gofynnwn hefyd am fendith ar bawb o'n cyd-aelodau na all fod yn bresennol mewn gwasanaethau heddiw – y bydd presenoldeb yr Ysbryd Glân yn gysur ac yn nerth arbennig iddynt lle bynnag y maent.

Wrth i ni barhau i ystyried cynghorion y Parch. John Robinson ar sut i rannu'n ffydd, awn ymlaen heddiw at yr ail bwynt – **cartref agored**.

Er nad yw'r syniad o gynnig paned, neu fwynhau swper blasus gyda sgwrs yn beth dieithr i ni yng nghefn gwlad, mae'n sicr yn arferiad sy'n llai cyffredin nag y bu. Gall fod cyfuniad o bwysau gwaith, prysurdeb bywyd pob dydd a newid cymdeithasol wedi cael dylanwad ar hyn, ond dylai'r Cristion ystyried anogaeth y Beibl – 'Peidiwch ag anghofio lletygarwch' (Hebreaidd 13:2). Dyma ffordd ymarferol i ni wahodd pobl i'n cartrefi a'u gwneud yn gyfforddus wrth ddarparu'n hael ar eu cyfer, mwynhau eu cwmni a dod i'w hadnabod yn well. Ac yn enwedig i Gristnogion, mae agor ein cartrefi i groesawu eraill yn gyfle arbennig i ddangos bywyd cyffredin y Cristion i'r rhai sy'n chwilfrydig. Gweddi o ddiolch cyn bwyd, Beiblau sy'n cael eu defnyddio'n gyson, a pharodrwydd i drafod y ffydd gyda'n gilydd heb unrhyw gywilydd. Er nad yw'r rhain yn bethau anghyffredin i ni, gallent fod yn agoriad llygaid i'r rhai sy'n ystyried gwirionedd y ffydd Gristnogol.

Dylem sylweddoli mor fawr yr ydym wedi'n bendithio fel Cristnogion. Trwy gredu yng Nghrist rydym yn derbyn bywyd newydd, bywyd nad yw hyd yn oed siomedigaethau, poen na marwolaeth yn gallu ei ddinistrio. Rydym wedi derbyn y bywyd tragwyddol hwn trwy drugaredd Duw, am fod ei Fab wedi marw yn ein lle. Tybed ydym ni'n barod i'n bywyd newydd ni fod yn weladwy i eraill wrth i ni eu gwahodd i'n cartrefi? Yn ein darlleniad heddiw o lyfr y proffwyd Amos, gwelwn Dduw yn cymell y bobl i'w geisio er mwyn iddynt gael bywyd. Yr un yw'r neges sydd gennym ninnau i'w rhannu gyda'n cyfeillion a'n teuluoedd! Cofiw'n beth mae 2 Corinthiaid 5:20 yn ei ddweud: "Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi â Duw."

Beth am i ni ddiolch heddiw am gael rhannu newyddion mor wych ag eraill, a gweddi am gyfleoedd i wneud hynny?

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher • **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd** yng Nghapel Trefnant o 10.00 – 3.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00 ac yna bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd draw i Gartref Yr Hen Ddeondy yn y prynhawn i gynnal gwasanaeth, a hynny am 2.00. Bydd cyfle am banded a sgwrs wedi'r gwasanaeth. Croeso i unrhyw un ymuno â ni.
- Mawrth Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ond sylwch na fydd oedfa yno'n y prynhawn.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Yr Ysgol Sul fydd am 10.00 yn Groes, a gobeithir y bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yno am 2.00!
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Obedeia 1:1-6 (BCND tud.838 / BCN: tud.764)